| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **Tachwedd 2017** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro ac Uwch Swyddog â chyfrifoldeb dros RIPA** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Lisa Jones, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol ar y Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA)** |

---

## 1. Beth yw cynnwys yr adroddiad?

Adroddiad er gwybodaeth yn unig yw hwn ynglŷn â gweithgareddau'r Cyngor mewn perthynas â RIPA.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Yn unol â'r Cod Ymarfer Statudol perthnasol i RIPA mae'n ofynnol i'r Cyngor adrodd yn ôl yn rheolaidd i'r aelodau ar ei ddefnydd o bwerau RIPA

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

## 4. Manylion yr Adroddiad.

4.1 Ni fu unrhyw weithgaredd cysylltiedig â'r defnydd o'r pwerau hyn ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor hwn; mae'r Cyngor wedi defnyddio'r pwerau hyn yn y gorffennol mewn perthynas â thipio anghyfreithlon, troseddau amgylcheddol, gwerthiannau anghyfreithlon i bobl dan oed e.e. alcohol a thân gwyllt; lles anifeiliaid ac yn y blaen. Ni wneir ceisiadau ar sail 'mynd i bysgota', bydd y gwasanaeth fel arfer wedi derbyn tystiolaeth sy'n ategu'r cais am y wyliadwriaeth dan sylw.

4.2 Yn y cyfnod adrodd diwethaf hwn, darparwyd hyfforddiant mewnol ar gyfer swyddogion ymchwilio yn unig ar 30 Mawrth 2017 gan edrych ar astudiaethau achos ymarferol. Bydd digwyddiad hyfforddiant gloywi yn cael ei gyflwyno i Swyddogion Awdurdodi'r Cyngor (SAC) y flwyddyn nesaf er mwyn eu galluogi i herio'n effeithiol a chraffu ar unrhyw gais sy'n dod ger eu bron er mwyn sicrhau fod unrhyw wyliadwriaeth cudd yn cael ei gynnal yn gymesur ac os oes gwir angen yn unig.

4.3 Mae gweithgor RIPA y Cyngor wedi parhau i gyfarfod yn ôl yr angen, yn enwedig os bydd newidiadau i bolisïau yn ofynnol yn ôl y Codau Ymarfer

neu'r Arweiniad a gyhoeddir gan y Swyddfa Gartref neu'r Swyddfa Comisiynwyr Gwyliadwriaeth; er mwyn sicrhau fod polisi RIPA y Cyngor yn parhau i fod yn gyfredol ac yn addas i'r pwrpas; i ystyried yr ymdriniaethau tuag at weithredoedd neu feysydd penodol ble gallai RIPA gynorthwyo ag unrhyw faterion gorfodi ac i fwydo unrhyw sylwadau yn ôl o unrhyw archwiliad neu gan aelodau'r Pwyllgor hwn.

4.4 Yn ystod 2018 mae'r Cyngor hwn yn debygol o gael archwiliad gan y Swyddfa Comisiynwyr Gwyliadwriaeth a rhoddir eu hadroddiad gerbron y Pwyllgor hwn unwaith y bydd wedi'i dderbyn.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Er nad oes angen unrhyw benderfyniad, gallai gweithgareddau'r Cyngor o dan RIPA hyrwyddo ein blaenoriaethau amgylcheddol o ran diogelu'r amgylchedd corfforol (megis rhwystro tipio anghyfreithlon) neu'r amgylchedd economaidd (safonau masnach) neu ddiogelu pobl ifanc a diamddiffyn a'u lles (atal gwerthu cynnyrch i bobl dan oed).

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd o'n effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw gostau cysylltiedig â'r adroddiad hwn yn benodol.

## 7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Nid oes unrhyw oblygiadau o ran lles gan mai adroddiad er gwybodaeth yn unig yw hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Nid oedd angen proses ymgynghori ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes angen datganiad ariannol.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Wrth ddefnyddio ei bwerau o dan y drefn hon, gall y Cyngor fod mewn perygl o fynd yn groes i hawl unigolyn i fywyd preifat a theuluol fel y'i nodir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Cyn arfer y pwerau hyn mae'n rhaid i'r Cyngor nodi'n fanwl mewn cais i'r Swyddog Awdurdodi ac yna'r Llys Ynadon, beth yw'r rhesymau a'r seiliau dros fynd ymlaen â'r wyliadwriaeth, a dylai'r rhesymau a'r seiliau hyn nodi'r glir pam ei bod yn gymesur ymyrryd â hawliau dynol unrhyw unigolyn.

Bydd sicrhau fod swyddogion sy'n defnyddio'r pwerau hyn yn cael eu hyfforddi'n rheolaidd a bod y Swyddog Monitro'n goruchwylio'r fath weithgaredd yn agos yn lleihau unrhyw risgiau posibl. Caiff y Cyngor hefyd ei archwilio bob tair blynedd gan y Swyddfa Comisiynwyr Goruchwyliaeth gyda'r adroddiad yn cael ei ddwyn gerbron y Pwyllgor hwn unwaith y'i derbynnir.

## 10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

RIPA 2000  CALl 1972.